# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 10/03/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithaso a Llywodraeth Lleol

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Gofal Canser

**C12 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth ar gyfer gofal canser yng Nghymru? OAQ(3)2716(FM)

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl i fyrddau iechyd lleol gynllunio, trefnu a darparu gofal canser o ansawdd uchel i'w trigolion yn unol â'r safonau canser cenedlaethol.

### Llywodraeth Glymblaid

**C13 Kirsty Williams:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau ei Lywodraeth ar gyfer blwyddyn olaf y Llywodraeth glymblaid? OAQ(3)2723(FM)

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn parhau i wireddu'n hymrwymiadau yn y glymblaid.

### Ymrwymiadau 'Cymru'n Un'

**C14 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflawni ymrwymiadau Cymru'n Un? OAQ(3)2724(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn gwneud cynnydd da o ran gwireddu ymrwymiadau 'Cymru'n Un'. Mae ein llwyddiannau hyd yma'n cynnwys cyflwyno'r cyfnod sylfaen; menter ProAct; sefydlu Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd; a nifer fawr o Fesurau gan gynnwys y Mesur teithio gan ddysgwyr a'r Mesur plant a theuluoedd.

### Diogelwch Cefnffyrdd

**C15 Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddiogelwch cefnffyrdd yng Nghymru? OAQ(3)2711(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn parhau i wneud cynnydd da o ran cyrraedd targedau heriol Llywodraeth y DU i leihau anafiadau. Rhwng 1998 a 2008, achubwyd llawer o fywydau drwy fentrau addysg, gorfodi a pheirianneg. Yn ystod y cyfnod hwnnw, bu marwolaethau ar gefnffyrdd Cymru 47 y cant yn llai.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Lleol

### Troseddau sy’n Gysylltiedig ag Alcohol

**C9 Jeff Cuthbert:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn ei wneud i leihau troseddau sy’n gysylltiedig ag alcohol? OAQ(3)1116(SJL) *Trosglwyddwyd i’w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Ar 28 Ionawr 2010, cyhoeddais adroddiad blynyddol ar gyflwyno ‘Gweithio Gyda’n Gilydd i Leihau Niwed’, sy’n rhoi disgrifiad manwl o hynt ein gwaith yn erbyn y camau gweithredu a nodir yn ein strategaeth camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys trosedd sy’n gysylltiedig ag alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae’r adroddiad ar gael yn http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/substancemisuse/publications/annualreport09/?skip=1&lang=cy.

*Tynnwyd cwestiwn 10, OAQ(3)1120(SJL), yn ôl .*

### Mentrau Cydweithredol

**C11 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaeth mentrau cydweithredol wrth gyflenwi gwasanaethau lleol? OAQ(3)1152(SJL)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Lleol (Carl Sargeant):** Mae gan awdurdodau lleol rôl arwain bwysig i’w chwarae o ran llywio a chynllunio ar gyfer eu cymunedau drwy gydweithio a chydweithredu ag ystod o bartneriaid ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat a’r trydydd sector. Mae nifer o enghreifftiau lle mae cydweithfeydd a chwmnïau cydfuddiannol yn darparu gwasanaethau cyhoeddus ardderchog gan gynnwys tai cymdeithasol a hamdden gymunedol.

### Mynediad i Adeiladau ar gyfer Pobl Anabl

**C12 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella mynediad i adeiladau ar gyfer pobl anabl? OAQ(3)1155(SJL)

**Carl Sargeant:** Yr wyf yn ymrwymedig i sicrhau bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rôl arwain o ran hybu cyfle cyfartal i bawb a sicrhau bod adeiladau, gwasanaethau a chyfleusterau yn hygyrch i bobl anabl ledled Cymru.

### Diogelwch Cymunedol

**C13 Leanne Wood:** Pa drafodaethau mae’r Gweinidog wedi eu cael ynghylch diogelwch cymunedol? OAQ(3)1118(SJL)

**Carl Sargeant:** Yr wyf wedi cael nifer o drafodaethau ynghylch cydweithio ar faterion diogelwch cymunedol yn ystod fy nghyfarfodydd gydag awdurdodau heddlu Cymru, Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru, a David Hanson, Gweinidog y Swyddfa Gartref.

*Tynnwyd cwestiynau 14 ac 15, OAQ(3)1143(SJL) ac OAQ(3)1147(SJL), yn ôl.*

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Atgyweirio Adeiladau Ysgolion

**C9 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am atgyweirio adeiladau ysgolion? OAQ(3)1294(CEL)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews):** Mae'r Llywodraeth hon yn ymroddedig i wella cyflwr ac addasrwydd ysgolion Cymru. Yn ystod oes y Cynulliad Cenedlaethol, byddwn wedi buddsoddi £774 miliwn o gyfalaf mewn ysgolion. Awdurdodau lleol unigol sy'n gyfrifol am benderfynu ar fuddsoddi mewn trwsio adeiladau ysgolion.

### Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

**C10 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant? OAQ(3)1257(CEL)

**Leighton Andrews:** Yr ydym wedi ymroi i leihau nifer y bobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Ar 11 Chwefror, cyhoeddais fod grŵp gorchwyl a gorffen diweithdra pobl ifanc wedi'i sefydlu, o dan gadeiryddiaeth Martin Mansfield, i edrych ar symleiddio'r cynlluniau sydd ar gael.

### Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill

**C11 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth ESOL yng Nghymru? OAQ(3)1265(CEL)

**Leighton Andrews:** Un o brif egwyddorion ein strategaeth genedlaethol sgiliau sylfaenol i Gymru oedd sicrhau na fydd neb yn cael ei rwystro rhag chwarae rhan lawn mewn cymdeithas oherwydd diffyg sgiliau iaith sylfaenol yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Yr ydym wedi bod yn gweithio gyda darparwyr ESOL yng Nghymru i gefnogi addysgu a dysgu.

*Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ(3)1287(CEL), yn ôl*

### Sector Addysg Uwch

**C13 Paul Davies:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi'r sector addysg uwch? OAQ(3)1246(CEL)

**Leighton Andrews:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn buddsoddi £800 miliwn mewn addysg uwch yn 2010-11. Dyrennir dros £400 miliwn o'r buddsoddiad hwn i sefydliadau addysg uwch drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a thros £370 miliwn i roi cymorth i fyfyrwyr. Mae 'Er Mwyn Ein Dyfodol' yn pennu blaenoriaethau clir ar gyfer cyfeiriad y sector addysg uwch yng Nghymru yn y dyfodol.

### Darpariaeth Addysg

**C14 Chris Franks:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynigion diweddar a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol i aildrefnu darpariaeth addysg? OAQ(3)1266(CEL)

**Leighton Andrews:** Rhoddir ystyriaeth lawn i bob cynnig i ad-drefnu ysgolion a gyflwynwyd

i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt. Caiff y penderfyniadau arnynt eu cyhoeddi maes o law oni bai bod y rheini sy’n gyfrifol am eu cyhoeddi yn eu tynnu’n ôl yn y cyfamser.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)1299(CEL), yn ôl.*